

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Mai 2018

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

### **Senedd Ieuenctid Cymru**

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am gyfle newydd cyffrous y gallai eich plentyn fod am gymryd rhan ynddo.

Caiff Senedd Ieuenctid Cymru ei sefydlu yn 2018, gyda'r etholiadau cenedlaethol ar-lein cyntaf ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 18 oed yn digwydd ar 05-25 Tachwedd. Bydd y corff hwn, o dan arweiniad pobl ifanc, yn galluogi 60 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru a'r rhai y maent yn eu cynrychioli i ymchwilio i faterion sy'n bwysig i bobl ifanc yng Nghymru, eu trafod a rhoi sylw iddynt.

Rydym yn teimlo'n angerddol o blaid darparu cyfleoedd amrywiol i bobl ifanc fel bod eu llais yn cael ei glywed ac fel y gallant chwarae rhan weithgar mewn cymdeithas, felly hoffwn eich annog i ymweld â'r wefan: [www.seneddieuenctid.cymru](http://www.seneddieuenctid.cymru) i gael manylion am gymryd rhan a pha ymrwymiad fydd ei angen ar y garfan gyntaf o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru.

Y dyddiadau allweddol yw:

Lansio manylion Senedd Ieuenctid Cymru  Gall pobl ifanc ddechrau cofrestru i bleidleisio drwy'r wefan: <a href="http://www.seneddieuenctid.cymru">www.seneddieuenctid.cymru</a>	31 Mai 2018
Lansio enwebu'r ymgeiswyr	03-30 Medi 2018
Etholiadau cenedlaethol ar-lein	05-25 Tachwedd
Cyhoeddi'r aelodau	Rhagfyr 2018

Cyfarfod cenedlaethol cyntaf	22-24 Chwefror 2019
------------------------------	---------------------

### Sut y gallwch chi helpu?

- 1) Os yw eich plentyn am sefyll fel ymgeisydd yn yr etholiadau ar-lein cyntaf erioed i Senedd Ieuenctid Cymru, ewch i'n tudalennau cyfarwyddyd ar-lein. [www.seneddieuenctid.cymru](http://www.seneddieuenctid.cymru). Rhaid i'r rhai sydd am bleidleisio a sefyll fel ymgeiswyr fod yn 11 oed erbyn neu ar 31 Awst 2018 a rhaid bod yn 17 oed yn ystod etholiadau 05-25 Tachwedd, 2018.
- 2) Os yw eich plentyn yn llwyddo i ddod yn Aelod dros un o'r 40 etholaeth ledled Cymru, bydd gofyn iddo/iddi gwrdd â chynrychiolwyr eraill eu hardal, ar benwythnosau penodol yn ystod y flwyddyn. Bydd angen mynd i 2-3 o gyfarfodydd cenedlaethol yng Nghaerdydd, hefyd, a fydd yn golygu aros dros nos.
- 3) Os yw eich plentyn am bleidleisio ar-lein ac nad yw wedi cofrestru i bleidleisio eto, ewch i'r wefan i gael y manylion cofrestru llawn. Bydd angen cyfeiriad e-bost dilys i gofrestru i bleidleisio.
- 4) Helpwch i hyrwyddo Senedd Ieuenctid Cymru drwy unrhyw rwydweithiau perthnasol rydych chi'n perthyn iddynt ee rhwydweithiau Rhieni ac Athrawon, clybiau ieuenctid ac ati. Gallwch hefyd hyrwyddo Senedd Ieuenctid Cymru drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol @seneddieuenctidcymru @welshyouthparliament

Mae hwn yn gyfle gwirioneddol gyffrous i bobl ifanc Cymru ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a diolch ymlaen llaw am ein cynorthwyo i ledaenu'r neges i bob person ifanc cymwys yng Nghymru.

Yn gywir,

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English